




Gweledigaeth a Rennir 1





Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Gweithgaredd 1: Beth sydd angen ei gynnwys mewn datganiad gweledigaeth?



Ydach chi'n cytuno efo'r datganiadau yma? Fyddech chi'n ychwanegu unrhyw beth arall?



Gweithgaredd 2: Ysgolion fel Sefydliadau sy'n dysgu



Mae ysgolion ar draws Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r OECD i ddatblygu'r model yma o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu.

Mae'r bocys isod yn rhestru'r agweddau i'w dal mewn côf wrth fynd at ii ystyries y dimensiwn cyntaf o ddatblygu gweledigaeth a rennir sy'n rhoi sylw i'r hyn mae pob dysgwr yn ei ddysgu.

- Mae gweledigaeth yr ysgol wedi'i hanelu at wella canlyniadau gwybyddol a chymdeithasol-emosiynol myfyrwyr, gan gynnwys eu lles.
- Mae gweledigaeth yr ysgol yn pwysleisio paratoi myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol mewn byd sy'n newid.
- Mae gweledigaeth yr ysgol yn cofleidio pob myfyrwr.
- Mae gweithgareddau dysgu ac addysgu wedi'u cynllunio gan ystyried gweledigaeth yr ysgol.
- Mae gweledigaeth yr ysgol yn cael ei deall a'i rhannu gan yr holl staff sy'n gweithio yn yr ysgol.
- Mae staff yn cael eu hysbrydoli a'u cymell i ddod â gweledigaeth yr ysgol yn fyw.
- Mae'r holl staff yn ymwneud â datblygu gweledigaeth yr ysgol.
- Mae llywodraethwyr ysgol yn ymwneud â datblygu gweledigaeth yr ysgol.
- Gwahoddir myfyrwyr i gyfrannu at weledigaeth yr ysgol.
- Gwahoddir rhieni i gyfrannu at weledigaeth yr ysgol.
- Gwahoddir partneriaid allanol i helpu i lunio gweledigaeth yr ysgol.

Yn 2017, cyhoeddodd yr OECD adroddiad ar sut roedd ysgolion yn datblygu fel sefydliadau dysgu ledled Cymru. Dyma rai o'r canfyddiadau:

- Nod gweledigaeth gynhwysol a rennir yw gwella profiadau dysgu, lles a deilliannau pob dysgwr.
- Dylai'r weledigaeth gwmpasu'r presennol a'r dyfodol, gan ysbrydoli ac ysgogi'r dysgwyr.
- Gwireddu'r weledigaeth yw sail y dysgu a'r addysgu.



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

- Er mwyn gwireddu gweledigaeth yr ysgol, bydd yn rhaid i'r holl staff gyfrannu a gwahoddir cyfraniadau gan ddysgwyr, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, y gymuned allanol a phartneriaid eraill

Ydych chi'n cytuno â'r datganiadau a restrir yn adroddiad yr OECD o 2017?

A fyddai hyn yn dal i fod yn wir heddiw? A yw ysgolion wedi datblygu eu gwaith ymhellach ar y ddau ddimensiwn:

- Datblygu gweledigaeth a rennir
- Sefydlu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Gweithgaredd 3: Adlewyrchu

Wedi i chi wyllo'r fidio fer yma gan Simon Breakspear, mae cyfle i chi adlewyrchu ac i drafod. Mae Simon yn adnabod 3 cyfnod:

- Cyfnod arhyfwng
- Cyfnod Addasu
- Cyfnod cyfleoedd

Er bod yr amseriad mae Simon yn sôn amdano yn cyfeirio at yr ymateb cychwynnol i'r pandemig yn Awstralia, efallai y byddwch yn teimlo fod y cyfnodau yma yn parhau i fod yn berthnasol i'r sialensau sydd yn wyebu ysgolion Cymru heddiw

- ❖ Beth mae'r pandemig wedi ei ddatgelu am systemau eich hysgol?
- ❖ Beth ydych chi'n ei ystyried yn hanfodol?
- ❖ Allwch chi feddwl am rai eighreiffiau 'da chi'n falch ohonyn nhw?
- ❖ Oes yna rai pethau da chi wedi gychwyn ac am barhau i'w gwneud wedi'r pandemig?



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol Regional School Improvement Consortia

Gweithgaredd 4: Cyfle i Adlewyrchu

- Beth yw gweledigaeth bresennol eich ysgol? Pwy greodd hon? Pryd gafodd eich gweledigaeth ei hadolygu ddiwethaf?
- Pa werthoedd sy'n ategu'r weledigaeth hon?
- Fel ymwelydd i'r ysgol, sut fyddwn i'n gweld y weledigaeth hon ar waith?
- Sut ydych chi'n gwybod mai'r weledigaeth hon yw'r un gywir i'ch dysgwyr/cymuned ysgol chi?
- Sut mae'r weledigaeth hon yn edrych o safbwynt y dysgwr?